# Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol: dweud 'diolch yn fawr' i'r chwaraewyr

15/04/2021



Amgueddfa Genedlaethol Hedfan. Credyd: Ruth Armstrong

Rhowch rywbeth yn ôl i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol – sy'n codi £30miliwn bob wythnos at achosion da fel eich un chi – gyda chynnig arbennig i ddweud #DiolchYnFawr.

Rhwng 5-13 Mehefin 2021, bydd sefydliadau ac atyniadau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn cynnig mynediad am ddim a bargeinion eraill i ymwelwyr sy'n dangos tocyn neu gerdyn crafu'r Loteri Genedlaethol. A wnewch chi ymuno â nhw?

# Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol

Ers mis Mawrth 2020, mae mwy na £1biliwn o arian y Loteri Genedlaethol wedi helpu cymunedau, pobl a sefydliadau y mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio arnynt i adfer unwaith eto.

Mae Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol yn ffordd wych o ddweud #DiolchYnFawr. Mae'r fenter flynyddol hon, a ddechreuodd yn 2017, wedi tyfu i gynnwys 650 o gynigion ac mae bellach yn cyrraedd 14 miliwn o bobl.

> "Roedden ni ar ddechrau ein tath i ddatblygu cynulleidfaoedd a daeth yr ymgyrch hon â phobl newydd i mewn a chodi proffil ein gwaith fel elusen"
>
> *Sefydliad a gymerodd ran yn 2019*

# Cyfle wirioneddol arbennig

Mae bod yn rhan o Wythnos Agored nid yn unig yn ffordd uniongyrchol o ddiolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth, mae o fudd i'ch sefydliad hefyd.

Mae Wythnos Agored yn elwa o ymgyrch hysbysebu fawr gan y Loteri Genedlaethol. Mae cyfranogwyr blaenorol wedi nodi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a'r rhyngweithio ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer wedi derbyn sylw cenedlaethol a lleol yn y cyfryngau yn ystod yr wythnos.

Mae hefyd yn ffordd wych o groesawu pobl newydd ac atgoffa ymwelwyr eich bod ar agor ar gyfer busnes wrth i ni ddod allan yn ochelgar o'r cyfyngiadau symud.

Dywedodd un o gyfranogwyr 2019: "Roedden ni ar ddechrau ein tath i ddatblygu cynulleidfaoedd a daeth yr ymgyrch hon â phobl newydd i mewn a chodi proffil ein gwaith fel elusen"

# Beth allech chi ei gynnig

Mynediad am ddim yw'r cynnig symlaf, ond gallai bargeinion eraill gynnwys:

- tocynnau disgownt neu 2-am-1
- te a chacen am ddim
- parcio am ddim
- anrheg am ddim
- mynediad i le neu brofiad sydd fel arfer ar gau i'r cyhoedd

Cofiwch, mae ymbellhau cymdeithasol yn debygol o barhau i fod yn ofyniad ym mis Mehefin, felly sicrhewch eich bod yn ystyried hynny yn eich cynnig. Argymhellir defnyddio system archebu ymlaen llaw i reoli rhifau lle bo hynny'n briodol.

# Byddwch yn gyfranogwr digidol

Os na fydd mynediad corfforol i'ch safle yn bosibl ym mis Mehefin oherwydd cyfyngiadau coronafeirws, mae llawer o ffyrdd o hyd o gymryd rhan yn yr Wythnos Agored yn ddigidol. Gallech gynnig:

- mynediad am ddim i weithdai ar-lein
- gostyngiad yn eich siop ar-lein

- taith ddigidol am ddim o amgylch eich atyniad
- sesiwn holi ac ateb ar-lein Wythnos Agored unigryw gyda churadur neu arweinydd prosiect
- taleb am rodd am ddim y gellir ei defnyddio pan fyddwch yn ailagor



Ymunwch ag Amgueddfa The Black Country Living Museum i gymryd rhan yn yr Wythnos Agored eleni

## Angen rhagor o ysbrydoliaeth?

Mae cynigion poblogaidd o flynyddoedd blaenorol wedi cynnwys:

- Cynigiodd Canolfan Darganfod Banc Jodrell fynediad am ddim i'w hatyniad yn 2019 a gwelodd gynnydd o 500 o ymwelwyr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cynigiodd Castell a Gerddi Hillsborough yn Sir Down, Gogledd Iwerddon docynnau mynediad 2-am-1.

- Cynigiodd y Circus House ym Manceinion weithdai syrcas am ddim.
- Cynigiodd yr Academi Gelf Frenhinol yn Llundain docynnau am ddim i'r arddangosfa 'Eco-Visionaries'.
- Cynigiodd Eglwys Gadeiriol Henffordd deithiau cloestrau am ddim.
- Rhoddodd Côr y Cewri ddiodydd poeth am ddim i unrhyw un â thocyn Loteri Genedlaethol.

## Cofrestrwch

Cofrestrwch eich sefydliad i gymryd rhan. Gallwch hefyd ddod o hyd i Gwestiynau Cyffredin a rhagor o enghreifftiau ac awgrymiadau am gynigion.

Peidiwch â phoeni os na allwch gadarnhau eich cynnig eto, gallwch ei gwblhau'n nes at yr amser.

## rdeb hefyd mewn ...



### to a small project





Credit: Roswitha Chesher

**The Arts and Culture Impact Fund calls for more applicants**